Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Disgrifiad Swydd

**CYFARWYDDIAETH:** Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc

**ADRAN**: Ysgol Gynradd Gymraeg Calon y Cymoedd

**SWYDD:** Athro

**GRADD Y SWYDD:** Graddfa Cyflog Athro

**YN ATEBOL I:** Y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu

---

**DIBEN Y SWYDD:**

Cyflawni dyletswyddau proffesiynol yr Athro yn unol â'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon a darpariaethau statudol perthnasol eraill.

---

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Cynllunio a pharatoi gwersi gan ystyried cwricwlwm yr ysgol.
- Addysgu disgyblion yn y grwpiau y'i neilltuir iddynt, yn ôl eu hanghenion addysgol, gan gynnwys gosod a marcio gwaith.
- Helpu i asesu, cofnodi ac adrodd ar bresenoldeb, cynnydd, datblygiad a chyrhaeddiad disgyblion y'u neilltuir iddo/iddi a chadw'r cofnodion hynny fel sy'n ofynnol yn unol â systemau'r ysgol.
- Gosod disgwyliadau uchel ar gyfer ymddygiad disgyblion, a chadw safon dda o ddisgyblaeth drwy addysgu â ffocws clir, meithrin cydberthnasau cadarnhaol, a rhoi polisi ymddygiad yr ysgol ar waith.
- Rheoli gwaith staff cymorth yn y dosbarthiadau.
- Chwarae rhan lawn ym mywyd cymuned yr ysgol, a chefnogi ei hethos.
- Gwneud cofnodion a llunio adroddiadau ar anghenion personol a chymdeithasol disgyblion a chymryd rhan yn y cyfarfodydd hynny.
- Darparu neu gyfrannu at asesiadau llafar ac ysgrifenedig, adroddiadau a chyfeiriadau sy'n ymwneud â disgyblion unigol a grwpiau o ddisgyblion.

- Cadw trefn a disgyblaeth dda ymhlith y disgyblion a diogelu eu hiechyd a'u diogelwch pan fyddant wedi'u hawdurdodi i fod ar safle'r ysgol a thra eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau awdurdodedig mewn mannau eraill.

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

**Iechyd a Diogelwch**
Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch

**Cyfle Cyfartal**
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**
Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion ac Ansawdd neu'r Tîm IAA a Diogelu.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

**GWIRIAD COFNODION TROSEDDOL**

Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Manyleb Person

## Athro

Mae'r nodweddion canlynol yn cynrychioli'r ystod o sgiliau, galluoedd a phrofiadau ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Mae disgwyl i ymgeiswyr feddu ar y nodweddion sydd wedi'u nodi'n rhai hanfodol (Ydy).

| Nodweddion | Gofynion | Hanfodol | Dull o Werthuso/Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • Cymhwyster addysgu perthnasol.<br>• Wedi cofrestru â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru. | Ydy<br>Ydy | Cyflwyno Tystysgrifau Cymhwyso Gwreiddiol a ffurflen gais. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Profiad diweddar yng Nghyfnod Allweddol 2 neu yn y Cyfnod Sylfaen.<br>• Profiad o reoli staff cymorth.<br>• Rhuglder yn y Gymraeg.<br>• Profiad o arwain pwnc. | Ydy<br>Ydy<br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a geirdaon. |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Y gallu i greu amgylchedd dysgu hapus, heriol ac effeithiol.<br>• Y gallu i gynllunio a darparu cwricwlwm cyfoes i bob unigolyn gyda disgwyliadau uchel<br>• Hyblygrwydd wrth weithio fel rhan o dîm.<br>• Sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu da.<br>• Sgiliau trefnu da.<br>• Sgiliau TGCh da. | Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a geirdaon. |